Cyngor Celfyddydau Cymru

# Coronafeirws: Cymorth i Unigolion

## Cronfa Ymsefydlogi

# Cwestiynau Cyffredin

Ebrill 2020

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

Yn dyfarnu arian / Awarding funds from
Y LOTERI GENEDLAETHOL
THE NATIONAL LOTTERY®

## Cynnwys


| | |
|---|---|
| Hanfodion y rhaglen | 3 |
| Cymhwysedd | 3 |
| Ymgeisio am arian | 5 |
| Diffiniadau | 6 |
| Materion ariannol | 7 |
| Maint y gronfa | 11 |
| Meini prawf a phenderfyniadau | 12 |
| Gwybodaeth a chymorth | 14 |
| Arian arall y Loteri Genedlaethol | 15 |
| Newidiadau i'r canllawiau yma | 15 |


hyderus o ran anabledd
CYFLOGWR

Mae’r Cyngor yn ymrwymedig i ddarparu gwybodaeth mewn print bras, Braille, Arwyddeg Prydain, Hawdd eu Darllen ac ar awdio. Ceisiwn ddarparu gwybodaeth mewn ieithoedd ar wahân i’r Gymraeg a’r Saesneg ar gais.

## Hanfodion y rhaglen

| | |
|---|---|
| Beth yw'r gronfa ac ar gyfer pwy mae hi? | Mae'r gronfa ymsefydlogi ar gyfer artistiaid ac ymarferwyr creadigol sy'n llawrydd ac sy'n ceisio cynnal eu hunain drwy argyfwng coronafeirws.<br><br>Mae coronafeirws wedi achosi argyfwng difrifol a gallai ei effaith barhau am beth amser. Mae'n bwysig bod ymarferwyr creadigol yn cael cyfle i ddatblygu a chynnal eu gwaith. Nod y gronfa yw eu helpu i ymsefydlogi eto, diogelu eu hymarfer creadigol (yn ariannol ac yn greadigol) a/neu gefnogi cydweithio a rhwydweithio creadigol. |
| Am faint y gallaf ymgeisio? | Bydd y grantiau rhwng **£1,000** a **£10,000**. Gallwch hefyd ofyn am arian i helpu gyda chostau hygyrchedd (rhagor o fanylion yn yr adran "Materion ariannol" yn y ddogfen yma). |
| Pryd gallaf ymgeisio? | Mae'r gronfa'n agor i geisiadau ar-lein **ddydd Gwener 29 Mai 2020** a'r dyddiad cau yw **5pm ddydd Llun 15 Mehefin 2020.**<br><br>**Cofiwch, mewn amgylchiadau eithriadol, er enghraifft lle mae'r galw'n llawer uwch na'r disgwyl, efallai y bydd angen inni gau'r broses ymgeisio yn gynt na'r dyddiad sydd yma.** |

## Cymhwysedd

| | |
|---|---|
| Pwy all ymgeisio? | Ymarferwyr creadigol llawrydd sy'n:<br><br>• profi caledi ariannol/colli incwm oherwydd coronafeirws<br>• ennill 50% a rhagor o'u hincwm o waith llawrydd<br>• gweithio'n bennaf (50% a rhagor) yn un o'n disgyblaethau a ariannwn (cerddoriaeth, dawns, y theatr, llenyddiaeth, y celfyddydau gweledol a chymhwysol, y celfyddydau cyfun/amlddisgyblaethol, y celfyddydau digidol)<br>• masnachwyr unigol |

| | |
|---|---|
| | • meddu ar hanes o weithio yn y sector diwylliant a ariennir yn gyhoeddus neu gyda sefydliad a ariennir yn gyhoeddus yn y tair blynedd diwethaf<br>• 18 oed o leiaf<br>• byw yng Nghymru<br>• meddu ar gyfrif banc ym Mhrydain yn eu henw cyfreithiol<br><br>Gall unigolion sydd am weithio gyda'i gilydd fel grŵp ymgeisio. Ond byddai'n rhaid i un unigolyn ymgeisio fel yr ymgeisydd arweiniol ar ran y grŵp ehangach. Er mwyn cynnig cyfleoedd mor eang â phosibl, ni fyddem yn disgwyl i unrhyw unigolyn fod yn rhan o fwy nag un cais unigolyn ac un cais grŵp/ar y cyd. |
| Pwy sy'n methu ymgeisio? | Ni allwn ariannu:<br>• pobl na allant ddangos tystiolaeth o ymarfer creadigol proffesiynol llawrydd yn y sector celfyddydau dielw a'r diwydiant creadigol<br>• sefydliadau<br>• unrhyw un sy'n ennill llai na 50% o'i incwm o waith llawrydd<br>• unigolion y tu allan i Gymru<br>• unrhyw un sy'n dal yn yr ysgol, neu'n astudio'n llawn amser neu'n rhan o raglen tymor hir, ffurfiol neu achrededig mewn coleg neu brifysgol (adeg y cais) gan gynnwys myfyrwyr PhD (sy'n cael eu talu am eu hymchwil)<br>• academyddion neu weithwyr proffesiynol eraill ym maes addysg<br>• unrhyw un dan 18 oed |

| | |
|---|---|
| Beth os nad ydw i'n llawrydd? | Os nad ydych chi'n llawrydd (sef gweithio ar eich liwt eich hun) ni ddylech ymgeisio. Rydym ni'n eich cynghori i ymchwilio i ddarpariaeth Llywodraeth Prydain ar gyfer cyflogau sy'n cael eu bygwth gan goronafeirws.<br><br>(Gweler ein gwybodaeth am ffynonellau incwm amgen.) |
| Beth os ydw i'n gweithio ym maes manwerthu, arlwyo neu swyddogaethau cymorth eraill yn y sector creadigol? | Rydym ni'n blaenoriaethu cymorth i ymarferwyr llawrydd y mae eu prif ffynhonnell incwm yn dod o'u gwaith creadigol.<br><br>Rydym ni'n eich cynghori i ymchwilio i ddarpariaeth Llywodraeth Prydain ar gyfer budd-daliadau a chyflogau sy'n cael eu bygwth gan goronafeirws. |

## Ymgeisio am arian

| | |
|---|---|
| Am beth y gallaf ymgeisio? | Arian i dalu am:<br><br>• cyfleoedd i ddatblygu a chynnal eich ymarfer creadigol<br><br>• gweithgarwch a/neu offer a fydd yn eich helpu i sefydlogi eich ymarfer a/neu archwilio ffyrdd newydd o weithio<br><br>• prosiectau cydweithiol<br><br>• prosiectau sy'n cefnogi datblygiad celfyddydol a rhwydweithiau creadigol<br><br>• cyfleoedd i fentro'n greadigol ac archwilio modelau newydd o weithio at y dyfodol |
| Am beth na allaf ymgeisio? | Ni allwn ariannu:<br><br>• gweithgarwch nad yw'n gysylltiedig â'r celfyddydau<br><br>• gweithgarwch sydd eisoes wedi digwydd neu wedi'i amserlennu i ddechrau cyn inni ddod i benderfyniad ar eich cais<br><br>• gweithgarwch sy'n digwydd mewn ysgolion, gan gynnwys datblygu gweithgarwch neu adnoddau ar-lein |

| | |
|---|---|
| | - byddwn ni’n cyhoeddi gwybodaeth ar wahân am arian ar gyfer gweithgarwch gydag ysgolion<br><br>• myfyrwyr ar gyfer ffioedd dysgu addysg uwch a chostau cysylltiedig<br>• ceisiadau am offer yn unig<br>• hunangyhoeddi<br>• digwyddiadau neu weithgarwch codi arian<br>• arian ar gyfer prosiectau ffilm/sgrin<br>• prosiectau na ellir eu cyflawni am eu bod yn mynd yn groes i gyfyngiadau coronafeirws sydd ar waith adeg y prosiect<br>• ceisiadau gan bobl sy'n cael llai na 50% o'u hincwm drwy eu gwaith llawrydd. Os ydych chi fel arfer yn cael yr incwm drwy Dalu Wrth Ennill yr ydych wedi'i golli o ganlyniad i'r argyfwng coronafeirws, mae'n bosibl y gallwch gael arian gwarantu cyflog y Llywodraeth |

## Diffiniadau

| | |
|---|---|
| Beth yw ymarferwyr creadigol? | Unigolion ac artistiaid creadigol sy'n gweithio yn y celfyddydau a ariannwn gan gynnwys artistiaid, ysgrifenwyr barddoniaeth, rhyddiaith neu ffuglen, dramodwyr, cynhyrchwyr, cyfarwyddwyr, dylunwyr, coreograffwyr, cyfansoddwyr, artistiaid gweledol, gwneuthurwyr, curaduron a pherfformwyr. |
| A yw eich rhestr o ddisgyblaethau yn cynnwys ffilm? | Ni soniwn yn benodol am ffilm. Ond teimlwn fod yr amrywiaeth o ymarferwyr creadigol yr ydym ni’n barod i'w ariannu’n cynnwys agweddau ar wneud ffilmiau y byddem ni’n debygol o'u hariannu dan y celfyddydau digidol, ysgrifennu, neu gynhyrchu deunydd artistig/creadigol gwreiddiol. |

| | |
|---|---|
| Beth yw arian cyhoeddus? | Mae'n rhaid eich bod wedi cael grant i gyflawni gwaith neu wedi bod yn rhan o brosiect lle'r aeth arian grant i sefydliad arall.<br><br>Gall hyn gynnwys arian gan gyrff fel Cyngor Celfyddydau Cymru, Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol, Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol, awdurdodau lleol, prifysgolion, cyrff yn y sector cyhoeddus, ymddiriedolaethau, sefydliadau ac ati. |

## Materion ariannol

| | |
|---|---|
| A oes arnaf angen 10% o arian cyfatebol? | Nac oes. |
| Os gallaf sicrhau arian arall ar gyfer fy mhrosiect a fydd yn gwella fy siawns o lwyddo? | Nid yw cael arian arall yn ofynnol a gall ymgeiswyr ofyn am yr arian sydd arnynt ei angen (hyd at uchafswm y gronfa). Ond o ystyried bod yr arian yn gyfyngedig a'n bod yn awyddus i gefnogi cynifer o bobl ag y gallwn, mae'n anochel y bydd ceisiadau sy'n gofyn am lefelau is o arian yn cyflwyno achos mwy darbwyllol dros eu hariannu. |
| Sut gallai'r arian effeithio ar fy nghais am gredyd cynhwysol/cymorth ariannol gan y Llywodraeth? | Ni allwn roi cyngor am sut y gallai ein harian effeithio ar gredyd cynhwysol nac ar unrhyw fath arall o fudd-daliad neu arian. Cofiwch y gallai fod goblygiadau o ran treth. Dylech gysylltu â Chyllid a Thollau Ei Mawrhydi am gyngor. |
| A oes angen imi roi cyllideb am sut y gwariwn yr arian? | Oes, ar y templed cyllideb syml sy'n rhan o'r ffurflen gais. |
| Sut ydw i'n llenwi cyllideb y prosiect? | Mae sut rydych chi'n llenwi templed y gyllideb yn dibynnu ar beth yn union rydych chi'n ymgeisio amdano.<br><br>Os ydych chi'n ymgeisio am brosiect neu weithgarwch, rhaid ichi uwchlwytho cyllideb prosiect i adran Atodiadau eich cais. Rhaid i'r gyllideb fod ar y templed sydd yn y ffurflen gais. Cofiwch, unwaith y byddwch wedi cyflwyno eich cais, ni allwch newid y gyllideb felly gwnewch yn siŵr bod holl gostau'r prosiect yno. |

| | |
|---|---|
| | Dyma'r tudalennau y bydd angen ichi eu llenwi:<br><br>• **Crynodeb** – llenwch eich enw a theitl y prosiect. Bydd gweddill y celloedd yn poblogi'n awtomatig wrth ichi lenwi'r adrannau gwariant, incwm a hygyrchedd (os yw'r olaf yn berthnasol)<br><br>• **Gwariant** – lle rydych chi'n nodi pa gostau y byddwch chi'n eu cael o gyflawni eich prosiect<br><br>• **Incwm** – pa arian y byddwch chi'n ei dderbyn mewn perthynas â'ch prosiect<br><br>• **Costau hygyrchedd** – costau cymorth hygyrchedd personol i chi, neu unrhyw un sy'n ymwneud yn uniongyrchol â datblygu a chyflawni eich prosiect mewn ffordd greadigol<br><br>Dangoswch yn eich cyllideb sut yr ydych chi wedi cyrraedd y ffigyrau rydych chi wedi'u cynnwys yn eich cyllideb. |
| Sut ddylwn lenwi'r adran wariant yn y gyllideb? | Dangoswch yn eich cyllideb sut rydych chi wedi cyrraedd y ffigyrau rydych wedi'u cynnwys yno.<br><br>Dim ond costau rhesymol sy'n berthnasol i'ch prosiect a'ch sefyllfa bresennol y dylech eu cynnwys.<br><br>Dylech lenwi'r rhain mor llawn a chywir â phosibl.<br><br>Dylech roi manylion ynghylch sut rydych chi wedi cyrraedd eich ffigyrau. |
| Sut dylwn lenwi'r adran incwm? | Dangoswch yn eich cyllideb sut rydych chi wedi cyrraedd y ffigyrau rydych wedi'u cynnwys yno.<br><br>Mae 5 adran:<br><br>Cais am grant gan Gyngor Celfyddydau Cymru<br>Nodwch faint o arian rydych chi'n gofyn amdano.<br><br>Eich arian eich hun<br>Faint o'ch arian eich hun rydych chi'n ei gyfrannu at y prosiect? |

| | |
|---|---|
| | **Incwm a enillir**<br>Rhestrwch unrhyw incwm rydych chi’n disgwyl ei ennill o'ch prosiect. Dylech fod yn realistig ynghylch lefel yr incwm rydych chi’n debygol o'i ennill o’ch gweithgarwch.<br><br>**Arian arall**<br>Mae sicrhau arian arall ar gyfer eich prosiect yn arwydd inni fod cefnogaeth ehangach i'ch prosiect. Byddwch yn realistig am faint o arian arall rydych chi'n gobeithio ei gael (os o gwbl).<br><br>**Cymorth mewn nwyddau**<br>Gall cymorth mewn nwyddau fod yn:<br><br>• amser gwirfoddolwyr<br>• benthyg offer<br><br>Ni all cymorth mewn nwyddau ddod o'ch amser na'ch adnoddau eich hun na bod yn ddisgownt gan gyflenwr. |
| Sut ydw i'n llenwi’r crynodeb? | Mae’n crynhoi cyfanswm eich gwariant a’ch incwm. Dylai’r balans fod yn £0.<br><br>Wedyn bydd yn dangos faint o arian rydych chi’n gofyn amdano gennym a'r lefel ganrannol. Rhaid i hyn fod yn is na’n huchafswm ariannu.<br><br>Os yw'n berthnasol, bydd unrhyw gais am gostau hygyrchedd ychwanegol yn cael ei ddangos hefyd.<br><br>Bydd cyfanswm ein harian yn cynnwys y cais am grant prosiect gydag unrhyw gostau hygyrchedd ychwanegol. Dyma'r ffigwr i'w gynnwys yn y ffurflen gais dan "Swm a geisiwch". |
| A allaf ddefnyddio'r gronfa i dalu fy nyledion hirdymor? | Nac allwch. Mae'r arian yn benodol i fynd i'r afael â'ch anawsterau oherwydd coronafeirws. |
| Mae gennyf ofynion hygyrchedd. Pa gymorth y gallaf ei gael i lenwi'r cais? | Os oes gennych ofynion hygyrchedd penodol, gallwch gysylltu â'n tîm grantiau a gwybodaeth: grantiau@celf.cymru |

| | |
|---|---|
| A allaf gynnwys costau hygyrchedd personol yn fy nghyllideb prosiect? | Os ydych chi'n cael costau ychwanegol sy'n ymwneud ag anabledd, gallwch ymgeisio am **hyd at £2,000** ar ben y grant rydych chi'n ei geisio. |
| Beth yw costau hygyrchedd? | Yn y cyd-destun yma, gall costau hygyrchedd gynnwys y canlynol, ond heb fod yn gyfyngedig iddynt:<br>• cymorth gofal personol yn y cartref<br>• cymorth gyda chludiant<br>• teithio i apwyntiadau meddygol<br>• cynorthwyydd personol<br>• cymorth ychwanegol gan therapydd ar ben yr hyn rydych chi'n ei dderbyn ar hyn o bryd<br>• eiriolwr<br>• cymorth cyfathrebu fel cyfieithydd Arwyddeg (BSL), rhywun i gymryd nodiadau, adroddwr llafar i destun, siaradwr gwefusau, disgrifiad clywedol, hwyluso neu gyfieithu dogfennau i fformat hawdd ei ddarllen neu fformatau eraill fel print bras neu sain, cymorth cyfieithu os nad Saesneg na Chymraeg yw eich iaith gyntaf<br>• cymorth cyfathrebu o bell neu brynu meddalwedd ac offer i ddarparu cymorth cyfathrebu |
| Pa dystiolaeth fanc sydd raid imi ei chyflwyno? | Rhaid inni gael tystiolaeth i gysylltu popeth a phrofi:<br>• mai eich enw cyfreithiol sydd ar y cyfrif<br>• bod cyfeiriad y cyfrif yng Nghymru<br>• y cod didoli<br>• rhif y cyfrif |

| | |
|---|---|
| | Rhaid i'r dystiolaeth fod:<br><br>• yn y ddwy flynedd diwethaf (ar ddyddiad y cais)<br><br>• cyfathrebiad banc swyddogol er enghraifft:<br><br>– ffoto o'r cerdyn banc i'r cyfrif sy'n dangos enw, rhif a chod didoli'r cyfrif. (Os nad yw'ch enw i'w weld ar y cerdyn, bydd angen inni gael rhagor o dystiolaeth sy'n eich cysylltu â'r cyfrif)<br><br>– Llythyr neu e-bost sy'n dangos yn glir mai'r banc a'i hanfonodd ac sy'n cadarnhau'r wybodaeth angenrheidiol<br><br>– Cipluniau o'r sgrin sy'n dangos eich bod wedi mewngofnodi i'ch bancio ar-lein ac sy'n dangos eich enw a'r wybodaeth am eich cyfrif<br><br>Efallai bydd raid ichi gynnwys sawl dogfen i brofi'r holl wybodaeth a dangos y cysylltiad yn glir.<br><br>Os llwydda eich cais, gwiriwn y wybodaeth drwy ofyn ichi am fanylion pellach am eich cyfrif. Ni allwn dalu unrhyw arian ichi nes inni gael y wybodaeth yma a'i gwirio.<br><br>**Dalier sylw:**<br><br>• Ni allwn dderbyn cyfrifon cymdeithas adeiladu sydd dim ond yn gweithio gyda llyfr pás.<br><br>• Ni allwn dderbyn cyfrifon ar y cyd ychwaith |

## Maint y gronfa

| | |
|---|---|
| Beth yw maint y gronfa? | Rydym ni'n anelu at roi ychydig dros 20% (£1.5 miliwn) o'r holl arian Gwytnwch sydd ar gael i gefnogi'r ddwy gronfa sydd gennym i unigolion – y gronfa ymateb brys a'r gronfa ymsefydlogi yma.<br><br>Ar hyn o bryd nid ydym ni wedi penderfynu eto ar y rhaniad terfynol o arian rhwng y gronfa ymateb brys a'r gronfa ymsefydlogi. Byddwn ni'n monitro nifer y ceisiadau a phenderfynu wedyn. |

| | |
|---|---|
| O ble y daeth yr arian? | Rydym ni wedi ailddyrannu rhywfaint o'n grant Llywodraeth Cymru ac mae'r Llywodraeth hefyd wedi cyfrannu arian ychwanegol at yr arian cyffredinol sydd ar gael. Rydym ni hefyd wedi gwneud y penderfyniad anodd i ohirio am chwe mis ein rhaglenni sy'n agored i gais o'r Loteri Genedlaethol ac ailgyfeirio arian i'r gronfa wytnwch. Byddwn ni'n adolygu'r sefyllfa yn ddiweddarach yn y flwyddyn a chyhoeddi pryd y gallwn ailagor y rhaglenni yma.<br><br>Os na allwch dderbyn arian y Loteri am unrhyw reswm, dylech uwchlwytho llythyr gyda'ch cais sy'n esbonio pam. Os bydd eich cais yn llwyddiannus, byddwn ni'n ceisio ariannu eich prosiect o arian a dderbyniwn o ffynonellau eraill. |

## Meini prawf a phenderfyniadau

| | |
|---|---|
| Beth yw ein blaenoriaethau? | Mae gennym ddwy flaenoriaeth gyffredinol:<br><br>• y gyntaf yw cynnal ymarfer artistig a buddsoddi mewn meithrin gwytnwch unigolion.<br><br>• yr ail yw annog celfyddydau Cymru i fod yn fwy cynhwysol a phellgyrhaeddol. Rydym ni am i'r prosiectau a ariannwn ymgorffori egwyddorion cydraddoldeb ac amrywiaeth ym mhob peth a wnânt. Rydym ni hefyd am estyn cyrhaeddiad ein harian i ardaloedd o amddifadedd cydnabyddedig. |
| A oes meini prawf penodol ar gyfer y gronfa? | Caiff ceisiadau eu hasesu yn ôl y meini prawf canlynol:<br><br>• graddau a brys yr angen ariannol sydd yn eich cais -<br><br>• dylai eich cais ddangos sut y gallai'r arian eich helpu i weithio'n wahanol yn ystod y cyfnod yma i gefnogi eich sefyllfa ariannol<br><br>• cryfder creadigol a/neu artistig y prosiect neu'r gweithgarwch, neu ei gyfraniad at gefnogi creadigrwydd mewn eraill |

| | |
|---|---|
| | • i ba raddau y mae'r prosiect neu'r gweithgarwch yn bodloni ein blaenoriaethau<br>• cryfder effaith y prosiect neu'r gweithgarwch ar eich gwaith a'r budd i eraill, nawr ac yn y dyfodol<br>• cryfder y cynlluniau ymarferol i reoli a chyflawni'r prosiect neu'r gweithgarwch, gan gynnwys cynlluniau ariannol<br>• cydbwysedd y gweithgarwch a'r ariannu ar draws y celfyddydau, y disgyblaethau, y cymunedau a'r lleoedd ledled Cymru<br><br>Rydym ni am sicrhau bod sector y celfyddydau a diwylliant yn cynrychioli ein cymdeithas. Gobeithio y bydd yr arian yma'n galluogi'r amrywiaeth ehangaf o ymarferwyr creadigol i gael digon o incwm fel y gallant barhau i weithio'n llwyddiannus yn y dyfodol. Felly rydym ni'n croesawu'n arbennig geisiadau gan bobl dduon, pobl Asiaidd, pobl o gefndiroedd ethnig lleiafrifol, pobl fyddar a phobl anabl. |
| Pryd byddaf yn cael gwybod am y penderfyniad? | Ein nod yw penderfynu mewn **4 wythnos** o'r dyddiadau cau. Os na allwn wneud hyn am unrhyw reswm, byddwn ni'n rhoi gwybod ichi. |
| Os byddaf yn llwyddiannus, pryd byddwn yn cael yr arian? | Byddwn ni'n awdurdodi taliadau cyn gynted ag y cawn eich nodyn derbyn grant ac ar ôl cael cyfle i wirio eich manylion banc. Byddwn ni fel arfer yn talu 90% o unrhyw grant ar unwaith gyda'r gweddill ar ddiwedd eich prosiect neu'ch gweithgarwch ar ôl derbyn eich adroddiad diweddu. |
| A fydd rhagor o rowndiau i'r gronfa? | Dim ond un rownd sydd ar hyn o bryd. Ond byddwn ni'n parhau i gadw golwg ar y sefyllfa yn ystod y flwyddyn i weld pa mor hir y bydd coronafeirws yn parhau. |
| A allaf ymgeisio i'r gronfa ymsefydlogi i unigolion os ydw i eisoes wedi cael arian o'r gronfa ymateb brys? | Gallwch. |

| | |
|---|---|
| Beth fydd y gyfradd lwyddo? | Ni allwn ddweud ar hyn o bryd. Yn naturiol, gobeithiwn allu ariannu cynifer o geisiadau da ag sy'n bosibl, ond ni allwn wybod beth fydd y gyfradd lwyddo nes inni weld faint o bobl sy'n ymgeisio.<br><br>Mae'n debygol na fydd rhai ceisiadau da a diddorol yn cael eu hariannu. Mae hyn oherwydd ein bod yn derbyn fel arfer ragor o geisiadau nag y gallwn eu hariannu. Mae'r galw am ein harian yn fwy na'r arian sydd gennym, ac mae hyn yn debygol o barhau i fod yn wir yn y dyfodol. |
| A wnewch chi gyhoeddi enwau'r bobl a gafodd arian? | Gwnawn. Fel cyllidwr cyhoeddus, rhaid inni gyhoeddi enwau a manylion bras pawb sy'n derbyn arian oddi wrthym. |

## Gwybodaeth a chymorth

| | |
|---|---|
| Sut gallaf gael cymorth hygyrchedd wrth hunanynysu/ymbellhau'n gymdeithasol? | O ystyried y cyfyngiadau presennol, nid yw'n bosibl i gael cymorth wyneb yn wyneb (heblaw am roddwyr gofal rheolaidd). Byddwn ni'n parhau i gefnogi unigolion sydd â gweithwyr cymorth (gan gynnwys aelodau o'r teulu) drwy'r Gronfa Gymorth Hygyrchedd i ddehongli'r canllawiau a/neu ymgeisio.<br><br>Y peth gorau i'w wneud yw cysylltu â ni: grantiau@celf.cymru |
| A allaf siarad â swyddog y Cyngor? | Ni allwn gynnig cyngor un wrth un ar sut i ysgrifennu ceisiadau ar gyfer y gronfa.<br><br>Rydym ni wedi cynllunio'r broses i fod mor syml â phosibl, gan ofyn dim ond am yr wybodaeth sydd ei hangen arnom am eich amgylchiadau presennol.<br><br>Mae ein gallu i roi cyngor yn gyfyngedig iawn ar hyn o bryd, ond os oes gan unigolyn anghenion hygyrchedd a bod angen cymorth pellach arno i lenwi'r cais, gall gysylltu â: grantiau@celf.cymru |

## Arian arall y Loteri Genedlaethol

| | |
|---|---|
| Mae gennyf grant prosiect y Loteri Genedlaethol eisoes - a yw hynny'n effeithio arnaf i wrth ymgeisio am y gronfa yma? | Dylwn ni fod wedi cysylltu â chi erbyn hyn inni drafod beth sy'n digwydd nesaf gyda'r arian yna.<br><br>Os ydych chi'n cael arian arall gennym, gallwch ymgeisio i'r gronfa ymsefydlogi o hyd, ond ystyriwch yn ofalus y meini prawf a pha arian sydd ei angen arnoch yn ystod yr argyfwng.<br><br>Os ydych chi'n derbyn arian arall gennym, esboniwch pam nad yw'r arian yn ddigonol i'ch cynnal ar hyn o bryd. |
| Pryd fydd grantiau prosiect y Loteri Genedlaethol yn ailagor? | Nid oes gennym ddyddiad ar hyn o bryd. Ond mae'n debygol y bydd ein rhaglenni agored i gais arferol yn aros ar gau am 6 mis cyntaf 2020/21. Gwyddom fod grantiau prosiect y Loteri Genedlaethol yn rhan hanfodol o gynllunio busnes llawer o unigolion a sefydliadau. Byddwn ni'n gwneud ein gorau glas i ailagor y rhaglenni yma ar y cyfle cyntaf. |

## Newidiadau i'r canllawiau yma

| | |
|---|---|
| A fyddwch yn gwneud unrhyw newidiadau i'r gronfa? | Rydym ni wedi cynllunio a lansio'r gronfa yma'n gyflym i ymateb yn gyflym i anghenion brys. Oherwydd hyn, byddwn yn parhau i adolygu ein prosesau i sicrhau ein bod yn gwneud y defnydd gorau o'n hadnoddau, yn enwedig o ran unrhyw gyhoeddiadau pellach gan y Llywodraeth ac amgylchiadau cyfnewidiol coronafeirws.<br><br>Os bydd angen inni wneud unrhyw newidiadau, byddwn ni'n rhoi gwybod ichi cyn gynted â phosibl. |